**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-12-16 Papur 6 / Paper 6

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA(P)/MD/7106/16

John Griffiths AC /AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Tachwedd 2016

Annwyl John

Yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 3 Tachwedd, bu ichi ysgrifennu ataf ar 10 Tachwedd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol. Ymdrinnir â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor yn eu tro isod.

**Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu**

Darperir y cyllid refeniw cyffredinol ar gyfer plismona yng Nghymru fel Cyllid Allanol Cyfun (RSG) sy'n cynnwys grant cynnal refeniw (RSG) ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu (NDR). Ar ôl i NDR gael eu datganoli'n ariannol, mae'r ffigurau hyn bellach yn cael eu dangos ar wahân yn y Gyllideb Gymreig. Roddent yn cael eu dangos, yn y gorffennol, fel un ffigur. Mae'r Grant cynnal Refeniw yn perthyn i DEL refeniw ac Ardrethi Annomestig yn perthyn i AME Refeniw.

Er bod y Gyllideb Ddrafft yn dangos gostyngiad yng Nghyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu (DEL Refeniw) ar gyfer 2017-18, mae cyllid cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr heddlu wedi cynyddu. Bydd cyfraniad Llywodraeth Cymru at gyllid refeniw cyffredinol ar gyfer plismona yn codi £1.9 miliwn yn 2017-18. Newidiadau cyflwyniadol yn unig yw'r newidiadau yn y Gyllideb Ddrafft. Dangosodd cyllideb 2016-17 y cyllid ar gyfer plismona fel grant cynnal refeniw. Mewn gwirionedd, darparwyd rhan o'r cyllid o ardrethi annomestig, fel sydd wedi bod yn wir erioed.

Mae Tabl 1 yn rhoi dadansoddiad o NDR rhwng yr awdurdodau unedol a'r heddlu a'r gwahaniaethau rhwng y cyflwyniad yng nghyllideb 2016-17 a'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu dosbarthu. Mae'r golofn olaf yn cadarnhau bod y symudiadau canslo ei gilydd allan wrth edrych ar y setliadau cyffredinol (AEF) ar gyfer awdurdodau a'r heddlu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.mark.drakeford@wales.gsi.gov.uk

**Tabl 1: Cysoni Dosbarthiad Gwirioneddol RSG ac NDR ar gyfer 2016-17 a'r hyn a gyhoeddir yng nghyllideb 2016-17**

*£ miliwn*

| | | Cyhoeddi 2016-17 | Gwirioneddol 2016-17 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol | Grant Cynnal Refeniw (DEL) | 3,122 | 3,171 | 49 |
| Awdurdod lleol | Ardrethi Annomestig wedi'u Hailddosbarthu (AME) | 977 | 928 | -49 |
| Awdurdod lleol | Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun | 4,099 | 4,099 | 0 |
| | | | | |
| Heddlu | Cymorth Refeniw (DEL) | 137 | 88 | -49 |
| Heddlu | Ardrethi Annomestig wedi'u Hailddosbarthu (AME) | 0 | 49 | 49 |
| Heddlu | Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun | 137 | 137 | 0 |

## Gwariant a Reolir Bob Blwyddyn - Ardrethi Annomestig (NDR)

Y ffigur yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer ardrethi annomestig o £1.059 miliwn yw ein hamcangyfrif o'r swm a fydd ar gael i'w ailddosbarthu yn 2017-18. Nid yr un swm yw hwn â'r swm a gaiff ei gasglu yn y pen draw yn ystod, neu mewn perthynas â 2017-18. Mae'r ffigur yn cymryd i ystyriaeth ein hamcangyfrif diweddaraf o'r alldro ar gyfer 2015-16 ac asesiad wedi'i ddiweddaru o swm y refeniw a gynhyrchir yn y flwyddyn ariannol gyfredol (2016-17), yn ogystal â'n hamcangyfrif cychwynnol o dderbyniadau ar gyfer 2017-18 yn dilyn ailbrisiad 2017.

Mae holl refeniw a godir o NDR yn cael ei roi mewn cronfa gyfun. Rheolir y pwll er mwyn sicrhau bod yr holl refeniw, dros y tymor hir, yn cael ei ailddosbarthu i ariannu gwasanaethau lleol. Er hynny, o gofio nifer y ffactorau sydd ynghlwm wrth reoli cronfa mor fawr, mae'n anochel bod gwarged neu ddiffyg ar y balans ar ddechrau pob blwyddyn. Ceir llawer o newidiadau sy'n digwydd yn ystod pob blwyddyn sy'n effeithio ar yr incwm a gynhyrchir. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, newidiadau yn nifer a natur y busnesau a'r eiddo annomestig eraill, newidiadau o ran defnydd, cyfraddau casglu, ailbrisio, apelau, chwyddiant, pwy sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad ac ati. Mae'r cyfrif NDR archwiliedig gyfer 2015-16 wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

## Trefniadau cyllid gwaelodol o fewn setliad dros dro llywodraeth leol

Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar drefniadau cyllid gwaelodol, gan gynnwys gwerth cyffredinol y setliad, yr ystod o setliadau awdurdod unigol a'r gost sy'n gysylltiedig â rhoi cyllid gwaelodol ar waith. Mae'r ffactorau hynny'n newid bob blwyddyn ac, o ganlyniad, rhaid i unrhyw benderfyniad ynghylch a yw cyllid gwaelodol yn angenrheidiol neu'n ddymunol gael ei gymryd bob blwyddyn gan gymryd amgylchiadau'r flwyddyn honno i ystyriaeth. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith nad oes unrhyw ffigurau ar gyfer cyllideb neu setliad wedi'u cyhoeddi ar gyfer y blynyddoedd y tu hwnt i 2017-18, yn golygu na fyddai'n briodol ar hyn o bryd ystyried yr angen am ddarparu cyllid gwaelodol y tu hwnt i 2017-18.

## Cyllid o fewn setliad dros dro llywodraeth leol

Mae pob awdurdod lleol yn gorff annibynnol ac atebol yn ddemocrataidd ac yn gyfrifol yn statudol am reoli ei faterion ariannol ei hun.

Mae'r setliad cyffredinol o £4.1 biliwn heb ei neilltuo. Mater i bob awdurdod yw penderfynu sut y mae'n defnyddio'r arian hwn ar y cyd â'r adnoddau eraill sydd ar gael iddo – er enghraifft o'r dreth gyngor, grantiau, a ffioedd a thaliadau – i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae'n hanfodol bod pob awdurdod yn sicrhau bod ganddo drefniadau cadarn ar gyfer gwaith craffu doeth ar ei gynlluniau gwariant gan aelodau etholedig lleol ac ar gyfer monitro perfformiad yn erbyn y cynlluniau hyn yn barhaus. Rwyf wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda llywodraeth leol i gynllunio trefniadau ariannu sy'n cefnogi cyflawni ein canlyniadau a rennir yn y ffordd orau.

Mae gwariant ar wahanol wasanaethau yn cael ei monitro drwy'r wybodaeth am y cyfrif refeniw blynyddol a'r ffurflenni alldro refeniw sy'n cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddir y data am wariant ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r swm ychwanegol o £25 miliwn yn y setliad ar gyfer gofal cymdeithasol yn cydnabod y pwysau neilltuol a wynebir gan y sector. Fel yr ydych yn cydnabod yn eich llythyr, mater i bob awdurdod unigol fydd penderfynu ar y ffordd orau o wario ei gyfran o'r £25 miliwn yn ychwanegol gan gymryd ei amgylchiadau penodol ei hun i ystyriaeth. Mater i'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw ystyried canlyniadau gofal cymdeithasol.

<u>Arian ychwanegol ar gyfer parcio yng nghanol trefi</u>

Mater i'm cyd-aelodau yn y Cabinet fydd datblygu'r cynllun peilot. Byddwn yn dymuno trafod ein cynigion ar gyfer sut y bwriedir defnyddio'r arian hwn yn cael ei gyda'r awdurdodau lleol a byddwn yn gwneud datganiadau pellach maes o law.

<u>Arian ychwanegol ar gyfer cludiant i'r ysgol</u>

Mae'r cyllid yn cael ei darparu trwy setliad llywodraeth leol er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r awdurdodau i ddefnyddio adnoddau ychwanegol i ddarparu cludiant ysgol.

## Diwygio Llywodraeth Leol

Rwyf yn hyderus y bydd y £5 miliwn yn BEL Trawsnewid a Deddfwriaeth yn ddigon i gefnogi'r awdurdodau lleol i fwrw ymlaen ag unrhyw waith paratoi sy'n gysylltiedig â diwygio Llywodraeth Leol yn 2017-18 yn ogystal â chefnogi unrhyw awdurdodau sy'n ceisio uno'n wirfoddol. Mae'n bwysig cydnabod, fel pob newid sylweddol, y bydd y broses ddiwygio'n digwydd dros nifer o flynyddoedd. Mae'n hanfodol bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gyflwyno'r math o weithgareddau trawsnewidiol y mae eu

hangen ennill eu plwyf a sicrhau ffyrdd newydd o weithio sy'n galluogi Llywodraeth Leol i ddod yn fwy cadarn a chynaliadwy. Mae'r cyllid ar gyfer 2017-18 yn ddigonol i'n galluogi i ddechrau gwneud y newidiadau hynny.

Yn olaf, nodaf eich cais am dystiolaeth fanylach mewn perthynas â lles cenedlaethau'r dyfodol i helpu i graffu ar gyllidebau yn y dyfodol. Mae'r dull sydd wedi'u nodi yn ein Rhaglen Lywodraethu'n braenaru'r ffordd i'r Ddeddf ddod yn rhan annatod o gyllideb a chynlluniau busnes Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC / AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid Local Government
Cabinet Secretary for Finance and Local Government